**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD EITHRIADOL**
**A GYNHALIWYD AR 7 CHWEFROR 2017 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mrs Julie May a Mr. Theodore Joloza. Cyfrannodd Mr. David Powell trwy gyswllt ffôn.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes).

**Ymddiheuriadau:** Mr Ceri Stradling.

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 10:15

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Arolwg Etholiadol Gwynedd**

2.1. Dywedodd y Prif Weithredwr fod amserlen ar gyfer yr arolygon llywodraeth leol wedi'i chytuno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol ar gyfer Arolwg Etholiadol Cyngor Gwynedd wedi'i gytuno i ddechrau ar 10 Chwefror 2017 ac i ddod i ben ar 4 Mai 2017.

2.2. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd lythyr i'r Comisiwn yn gofyn am i'r Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol gael ei ymestyn i 30 Mehefin 2017, gan y bydd etholiadau llywodraeth leol Cymru yn cael eu cynnal ar 4 Mai 2017.

2.3. Mynegodd Cyngor Gwynedd siom hefyd mewn perthynas â darpariaeth annigonol y Comisiwn o wasanaethau Cymraeg; fodd bynnag, nodwyd bod y Comisiwn wedi cydymffurfio â Safonau Cymraeg presennol.

2.4. Mae'r Prif Weithredwr wedi drafftio ymateb i Gyngor Gwynedd, yn esbonio anawsterau'r Comisiwn o ran amserlennu a darpariaeth Gymraeg.

2.5. Ystyriodd y Comisiwn bum opsiwn mewn ymateb i gais Gwynedd am estyniad: (1) parhau'n unol â'r amserlen, heb estyniad; (2) caniatáu estyniad i Wynedd hyd at ddiwedd Mai 2017; (3) caniatáu estyniad i Wynedd hyd at 30 Mehefin 2017; (4) caniatáu estyniad i Wynedd, a derbyn y gallai Cyngor Ceredigion a Chyngor Powys – y mae eu Cyfnodau Ymgynghori Cychwynnol yr un fath â Gwynedd – ofyn am estyniadau, a byddai gorfod ystyried y rheiny; neu (5) caniatáu estyniad i Wynedd, Ceredigion a Phowys, gan ragatal ceisiadau pellach.

2.6. Mynegodd y Prif Weithredwr amharodrwydd i ganiatáu unrhyw estyniad, oherwydd anawsterau amserlennu y bydd hyn yn eu hachosi i'r Ysgrifenyddiaeth. Pe bai'r Comisiwn yn caniatáu estyniad, Opsiwn 2 uchod fyddai'r un gorau. Byddai Opsiwn 3 uchod yn cael effaith sylweddol ar yr amserlen a lles staff yr Ysgrifenyddiaeth. Byddai Opsiynau 4 a 5 hefyd yn cael effaith ar yr amserlen a staff yr Ysgrifenyddiaeth.

2.7. Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr amserlen bresennol wedi'i chynllunio gyda therfynau amser caeth; nid oes unrhyw hyblygrwydd wedi'i gynnwys ar gyfer llwyth gwaith ychwanegol y byddai estyniad yn ei greu.

2.8. Dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiwn yn ymwybodol o effaith yr estyniad y gofynnwyd amdano a'r pwysau ar staff yr Ysgrifenyddiaeth o ganlyniad i hynny.

2.9. Roedd y Comisiwn o'r farn fod amgylchiadau penodol yn gymwys i Gyngor Gwynedd o ystyried amseriad yr arolwg.

2.10. Cytunodd y Comisiwn y gallai estyniad hyd at 30 Mehefin 2017 beryglu'r amserlen gyffredinol. Penderfynwyd caniatáu estyniad hyd at 31 Mai 2017, ac y bydd sgwrs ffôn Gymraeg yn cael ei chynnal gyda Chyngor Gwynedd yn cadarnhau penderfyniad y Comisiwn.

## 3. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

3.1. Dim unrhyw Fusnes Perthnasol Arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2017**